Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Tedi Twt
# C/O Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed
# Commercial Street
# Bargoed
# CF81 1JG

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Tedi Twt

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Tedi Twt |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Jacqueline Davies |
| Person â gofal | Kate Jenkins |
| Nifer y lleoedd | 18 |
| Amrediad oedran y plant | 3 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 0 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9yb – 3:15yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Ydi |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolwg cyntaf ers cofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 30/01/2012 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 12/06/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Gwella'r cyfarpar i sicrhau bod plant yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol

A2 Sicrhau bod yr ymarferwyr yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol a chyson i wella safonau llafar y plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau’n glir ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau effeithiol ynglŷn â ble a gyda phwy i chwarae. Yn ystod chwarae rhydd, mae’r rhan fwyaf yn symud yn hyderus o un weithgaredd i’r llall. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrannu syniadau at themâu yn ôl eu diddordebau, er engraifft, garddio.

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Mae’r rhan fwyaf yn cyrraedd y lleoliad yn eiddgar ac yn ymdopi’n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a’u gofalwyr. Maent yn ffurfio ymlyniadau cadarnhaol â’u gweithwyr allweddol a gyda phlant eraill, ac mae hyn yn effeithio’n gadarnhaol ar eu lles a’u gweithgareddau dyddiol. Mae gwaith celf a lluniau’r plant sy’n addurno’r ystafell yn cyfrannu’n briodol at eu hymdeimlad o berthyn i’r cylch.

Mae’r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod chwarae rhydd ac yn ystod cyfnodau grŵp. Mae llawer yn rhannu adnoddau’n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gydweithio’n effeithiol wrth wneud cwpaned o de yn yr ardal cartref. Mae llawer yn deall yn ystyrlon y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy’n gywir ac yn anghywir ac maent yn dweud ‘diolch’ yn gwrtais, pan fo’n briodol.

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Er enghraifft, maent yn cael hwyl wrth greu tusw o flodau a defnyddio ysbienddrych i chwilio am fwydod. Mae’r mwyafrif yn dyfalbarhau gyda’u tasgau yn llwyddiannus ac yn ymateb yn addas i anogaeth gan ymarferwyr.

Mae bron pob un o’r plant yn dysgu medrau newydd wrth iddynt brofi amrywiaeth

ysgogol o gyfleoedd chwarae. Mae gan bron bob un o’r plant fedrau hunangymorth da. Maent yn golchi eu dwylo a brwsio eu dannedd gyda chymorth cyfyngedig. Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibynnol yn arbennig o dda yn ystod amser byrbryd o ganlyniad i’r cyfleoedd da iawn sy’n cael eu darparu ar eu cyfer.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Barn**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae’r ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i iechyd a diogelwch y plant. Mae gan bob un o’r ymarferwyr ddealltwriaeth dda o’u rôl a’u cyfrifoldebau. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau’r lleoliad ar waith yn briodol. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae’r ymarferwyr yn annog pob un o’r plant i gymryd rhan mewn cynlluniau amrywiol sy’n

hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gan gynnwys brwsio dannedd. Mae'r lleoliad yn rhoi byrbrydau a diodydd iach i blant. Yn ddyddiol mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i blant wneud ymarfer corff a chwarae tu allan, er enghraifft, sesiynau yoga a dawnsio. Mae gweithdrefnau ac arferion hylendid yn dda iawn ac anogir plant i olchi eu dwylo ar amserau priodol.

Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn effeithiol. Maent yn fodelau da o

ymddygiad, yn gyson garedig ac yn atgoffa plant yn rheolaidd i rannu teganau ac ymddwyn yn briodol. Mae gan y lleoliad bolisi addas sydd yn canolbwyntio ar hybu ymddygiad positif. Rhoddir anogaeth a chefnogaeth i'r plant ddatrys unrhyw wrthdaro eu hunain. Mae ymarferwyr yn canmol y plant yn aml ac o ganlyniad yn atgyfnerthu eu hunanhyder. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion a'u hoffterau unigol.

Darperir cyfleoedd cyfoethog i blant ddysgu am bwysigrwydd gofalu am bethau byw, er enghraifft trwy dyfu planhigion yn yr ardd. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da i blant ddatblygu eu hannibyniaeth. Er enghraifft, maent yn annog y plant yn dda iawn i weini eu bwyd a'u diod eu hunain, bwyta'n annibynnol a thacluso ar ôl gweithgareddau.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau buddiol i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio asesiadau'n ddeallus i adnabod plant sydd angen cymorth ac i drefnu darpariaeth addas ar eu cyfer. Maent yn cydweithio gydag asiantaethau allanol yn effeithiol i gefnogi plant yn ôl yr angen, er enghraifft trwy dderbyn cyngor gan Dechrau'n Deg a gweithwyr iechyd proffesiynol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn gweithredu cwricwlwm diddorol, sy'n adlewyrchu athroniaeth y cyfnod sylfaen yn effeithiol. Maent yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu yn fwriadus, sy'n cynnwys dewisiadau'r plant yn eu dysgu.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau da. Maent yn herio'r plant yn gyson wrth ymyrryd yn synhwyrol yn ystod gweithgareddau, fel annog iddynt adeiladu tŷ o flociau i'r tri mochyn bach. Mae holi'r ymarferwyr yn effeithio'n gadarn ar fedrau'r plant ac maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu trwy chwarae ymarferol. Enghreifftiau da o hyn yw adeiladu pabell i wrando ar storïau a choginio'n frwd yn y gegin fwd.

Mae'r gweithdrefnau i asesu cynnydd y plant yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn asesu'n rheolaidd ac yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant sut i wella'u gwaith. Maent yn defnyddio canfyddiadau'r asesiadau yn drylwyr i gynllunio'n llwyddiannus ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r plant. Mae'r ymarferwyr yn cynnal cyfarfodydd tymhorol gyda'r rhieni a'r gofalwyr i drafod cynnydd eu plant. Maent yn darparu llyfrynnau ac adroddiadau defnyddiol iddynt, sy'n adlewyrchu cyflawniad eu plant yn effeithiol.

Mae'r cynllunio deallus yn effeithio'n dda ar wella medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae'n cynnwys heriau ieithyddol wrth baratoi bwyd yn yr ardal gartref a thasgau rhifo difyr wrth greu tusw o flodau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn

briodol ac yn cynnig cyfleoedd addas i ddefnyddio camerâu, ffôn a recordydd llais. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn cynllunio addysgol ac apiau heriol i ddatblygu medrau TGCh cynnar y plant yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant yn dda. Maent yn eu cymell i gydweithio a dysgu'n ymarferol, er enghraifft trwy ddringo cyfarpar anturus a pheintio blodau haf llachar.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar wella Cymraeg y plant yn briodol trwy fodelu geiriau, rhifau, lliwiau ac ailadrodd ymadroddion syml. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn modelu'r Gymraeg yn ddigon cyson, gyda'r plant a gyda'i gilydd, i sicrhau'r effaith orau. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru'n llwyddiannus, trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ac astudio cestyll cyfagos a diwydiant y cymoedd.

Mae'r ymarferwyr yn dathlu amrywiaeth a datblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda. Er enghraifft, maent yn astudio'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd a chreu canhwyllau i ddathlu Diwali. Yn ogystal, mae ymwelwyr, fel swyddogion o'r gwasanaethau brys, ac ymweliadau i'r siop leol, yn creu ymwybyddiaeth gadarn ymhlith y plant o'u cymuned.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae plant yn derbyn gofal mewn adeilad addas iawn, sydd wedi ei gynllunio i annog plant i ddysgu a datblygu. Mae mynediad i'r adeilad trwy ddrws diogel, a gofynnir i ymwelwyr fewngofnodi. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r amgylchedd mewnol ac allanol. Maent yn darparu ardaloedd chwarae a dysgu ysgogol, sy'n cynnwys ardaloedd tawel a chwarae rôl, cyfleoedd i blant ymchwilio ac ymholi a gweithgareddau i effeithio'n gadarn ar eu creadigrwydd.

Mae ymarferwyr yn ymwybodol o'u rolau yn cynnal diogelwch plant. Er enghraifft, gwnânt asesiad risg dyddiol o'r ardaloedd tu fewn a thu allan yr adeilad. Defnyddiant weithdrefn effeithiol ar ddiwedd y sesiwn i sicrhau bod plant yn gadael gyda rhieni neu ofalwyr cydnabyddedig. Caiff ymarferwyr eu lleoli yn effeithiol ac maent yn goruchwylio plant yn ofalus yn ystod gweithgareddau i sicrhau eu diogelwch.

Mae'r safle'n lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn lân ac yn cydymffurfio â gofynion glendid. Mae dril tân yn cael ei gynnal yn rheolaidd, a sicrheir bod gwiriadau diogelwch yr offer tân a thrydan yn gyfredol.

Mae'r amgylchedd yn gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Mae'r plant yn cael y cyfle i fynd i'r tai bach a defnyddio'r basnau golchi dwylo yn annibynnol.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae yn addas iawn ar gyfer oedran y plant sydd yn mynychu'r ddarpariaeth. Mae trefn yr adeilad yn caniatau i blant symud o gwmpas yn rhydd a gwneud dewisiadau effeithiol o ran eu chwarae. Caiff lles plant ei hyrwyddo trwy'r amrywiaeth da iawn o deganau ac offer yn yr ystafell ac yn yr ardaloedd awyr agored. Caiff rhai adnoddau eu cadw mewn blychau lefel isel wedi'u labelu, gan alluogi'r plant i estyn am deganau yn annibynnol. Mae ystod eang o deganau ac offer i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar gael, gan gynnwys llyfrau, arddangosfeydd a doliau.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arferion arwain trwyadl yr arweinydd yn effeithio'n fwriadus ar weithdrefnau'r lleoliad. Mae hi'n rheoli'n gadarn ac yn cyfeirio'r gwaith dyddiol a thymor hir yn llwyddiannus. Mae ffocws clir ganddi ar ddarparu profiadau diddorol i'r plant, sy'n sicrhau effaith bwrpasol ar eu deilliannau.

Mae'r cynllunio o brofiadau ysgogol, y gofal diwyd a'r addysgu dibynadwy yn canolbwyntio ar fodloni anghenion y plant yn effeithiol. O ganlyniad, wrth ddilyn esiampl clodwiw yr arweinydd a'i dirprwy i wella safonau, mae'r holl ymarferwyr yn ymroi i'w gwaith yn llwyr. Mae ganddynt ddisgwyliadau priodol ac maent yn cefnogi'r plant i ddysgu'n gyson, mewn ffyrdd adeiladol.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso sefydlog a gweithredol yn eu lle. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod ganddi ystyriaeth gadarn o farnau'r ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, y plant ac asiantaethau allanol. Gwneir hyn trwy drafodaethau ystyrlon â phawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad, i wella'r ddarpariaeth ac ymateb i anghenion y plant yn ddeallus. Er enghraifft, maent wedi ail-drefnu'r amgylchedd dysgu yn fwriadus a chanolbwyntio'n fanwl ar wella medrau'r plant i ddatrys problemau.

Mae'r unigolyn cyfrifol a'r pwyllgor rheoli yn weithredol. Maent yn gwrando'n synhwyrol ar awgrymiadau'r arweinydd a swyddogion o asiantaethau allanol. Mae trefniadau cadarn yn eu lle i fonitro'r lles a'r ddarpariaeth. Maent yn dilysu penderfyniadau'r arweinydd yn dda, ar ôl iddi ddefnyddio gweithdrefnau sefydlog i adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion i'w gwella. Mae'r gweithdrefnau hyn yn sicrhau targedau dilys yn y cynllun gwella. Mae'r arferion monitro, ar gyfer goruchwylio a gwerthuso'r gweithdrefnau arwain, yn gyson, yn berthnasol ac yn gefnogol.

Mae'r arweinydd yn sicrhau dyraniad da o adnoddau yn yr ardaloedd dysgu. Mae hi'n sicrhau bod hyfforddiant effeithiol ar gael i ddatblygu medrau unigolion yn bwrpasol. Yn ogystal, mae'r defnydd o'r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r cynllun gwella yn ddeallus. O ganlyniad, mae'r arweinydd yn sicrhau bod y gwariant o gyllid yn effeithio'n rymus ar y ddarpariaeth. Enghreifftiau da yw'r defnydd o gyfarpar mathemategol, fel tafol, i hybu'r medrau rhifedd, a strategaeth i wella'r medrau llafar, trwy ddefnyddio camerâu.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid da i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Er enghraifft, mae cysylltiadau cadarnhaol yn bodoli gyda'r ysgol gyfagos i gefnogi'r plant, wrth iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda rhieni a gofalwyr a threfnu diwrnodau agored yn dymhorol i drafod cynnydd y plant, sy'n sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu targedu'n fwriadus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/08/2019